Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
68/2015
DYDDIAD CYHOEDDI: 11/12/2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# MONITOR LLESIANT PLANT A PHOBL IFANC CYMRU 2015

## Crynodeb

Cyhoeddwyd Monitor Llesiant Plant a Phobl Ifanc Cymru am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2008. Cyhoeddwyd ail rifyn ym mis Mawrth 2011. Dyma'r trydydd rhifyn.

Nod y cyhoeddiad hwn yw darparu darlun aml-ddimensiwn o les plant a phobl ifanc yng Nghymru (0-25 oed), gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion llesiant a ffynonellau ystadegol ac ymchwil eraill. Gan gadw'r un penodau thematig â Monitor 2011, a'r adran gyflwyniadol ar ddatblygiadau polisi, ac adran gloi ar dueddiadau a chymariaethau, nod Rhifyn 2015 yw darparu trosolwg hygyrch a chryno o wybodaeth allweddol berthnasol. Gan ddefnyddio tystiolaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae hefyd yn nodi bylchau mewn tystiolaeth gyfredol am les plant.

Mae cynhyrchu'r Monitor hefyd yn un o'r mentrau mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu i gyflawni ei hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ganlyniad, mae strwythur y Monitor yn seiliedig ar themâu a gymerwyd o saith nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y themâu yw:

- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg a chyfleoedd dysgu
- Iechyd
- Cael cyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant
- Cyfranogi mewn penderfyniadau
- Cartref a chymuned ddiogel
- Dim anfantais yn sgil tlodi

Er bod pob pennod yn trafod pwnc penodol mae rhywfaint o ddangosyddion trawsbynciol hefyd o les cyffredinol plant yn seiliedig ar ddata hunan-adrodd. Mae yna ddiddordeb rhyngwladol cynyddol mewn mesurau llesiant goddrychol i ategu gwerth polisi mesurau gwrthrychol sefydledig o gynnydd cymdeithasol, fel GDP (Stiglitz, Sen & Fitoussi, 2009). Yng Nghymru mae hyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun

gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn ystod hydref 2015 bu Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar gynigion ynghylch dangosyddion cenedlaethol i fonitro cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant. Yn y DU, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi bod yn datblygu setiau o fesurau llesiant cenedlaethol sy'n cynnwys mesurau goddrychol (ONS, 2015) ac mae'r fenter hon yn cynnwys dangosydd penodol ar gyfer plant (Beardsmore a Siegler, 2014). Dwy ffynhonnell arall yw Ymddygiad Iechyd Plant o Oedran Ysgol (HBSC) ac Astudiaeth Cohort y Mileniwm. Mae'r dangosyddion o'r ddwy astudiaeth yn dangos bod mwyafrif plant Cymru'n fodlon â'u bywydau ar y cyfan, ond bod yna leiafrif nad ydynt yn fodlon. Agwedd bwysig ar yr ymchwil barhaus i'r pwnc hwn yw datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar les goddrychol plant. [1]

## 1. Trosolwg o'r Penodau

### Pennod 2: Y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r darlun yn galonogol ar y cyfan, gyda'r tueddiadau diweddaraf yn symud i gyfeiriad cadarnhaol. Er enghraifft, cafwyd gostyngiad nodedig yng nghanran y mamau sy'n yfed alcohol yn y 12 mis cyn ac yn ystod beichiogrwydd (gostyngiad o 55% yn 2005 i 39% yn 2010) a chynnydd yng nghanran y mamau a oedd yn dechrau bwydo ar y fron (cynnydd o 67% yn 2005 i 71% yn 2010). Mae cyfraddau marwolaethau babanod yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol dros y tri degawd diwethaf. Cafwyd gwelliannau hefyd yn niet plant pedair i saith oed, gyda chynnydd yng nghanran y plant sy'n bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd. Fodd bynnag, un duedd negyddol a nodwyd yw'r amrywiad yng nghanran y plant pedair oed oedd wedi cael yr holl frechiadau priodol (86% yn 2014-15 o gymharu â 90% yn 2009-10).

### Pennod 3: Addysg a chyfleoedd dysgu

Mae'r tueddiadau diweddar mewn perthynas â chyfranogiad plant mewn addysg orfodol wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Cafwyd gostyngiad yn nifer yr hanner dyddiau a gollir gan blant a gostyngiad yng nghyfran y plant cynradd ac uwchradd sy'n absennol yn barhaus. Ar y llaw arall, cafwyd cynnydd mewn absenoldeb anawdurdodedig, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae cyfradd gwahardd am gyfnodau penodol hirach wedi cynyddu ychydig mewn ysgolion cynradd ond wedi gostwng mewn ysgolion uwchradd.

Gwelwyd cynnydd mewn nifer o ddangosyddion ym maes cyrhaeddiad addysgol plant hyd at 16 oed dros y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd cynnydd yng nghanran disgyblion sy'n ennill y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (tua 11 oed) a 3 (tua 14 oed); a chynnydd sylweddol yng nghanran y plant sy'n ennill o leiaf bum TGAU Graddau A* i C (83.4% yn 2014/15 sydd bron yn gynnydd o 20 pwynt canran ers 2009/10). Cafwyd gostyngiad yn y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant eraill yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a lefel TGAU. Mae'r tueddiadau cadarnhaol hyn yn cyflwyno darlun gwahanol i ddata tueddiadau ychydig yn hŷn am Gymru a

[1] http://llyw.cymru/consultations/people-and-communities/future-generations-act-how-do-you-measure-a-nations-progress/?lang=cy

gafwyd o'r astudiaeth PISA ryngwladol o bobl ifanc 15 oed lle gwelwyd gostyngiadau sylweddol mewn sgoriau Mathemateg a Gwyddoniaeth, ond nid mewn sgoriau Darllen, rhwng 2006 a 2012, ond dim newid sylweddol mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth na Darllen rhwng y ddwy don ddiwethaf yn 2009 a 2012.

O ran addysg ôl-orfodol, mae mwy o bobl ifanc o Gymru yn dilyn cyrsiau addysg uwch gyda nifer y rhai sy'n hanu o Gymru sy'n ymrestru i Sefydliadau Addysg Uwch wedi cynyddu o ychydig o dan 55,000 yn 2009/9 i bron i 59,000 yn 2013/14.

Mae barn a theimladau plant am ysgol yn bwysig hefyd. Yn ôl Adroddiad Cenedlaethol PISA 2012 mae gan ddisgyblion '*ymdeimlad cryf o berthyn a boddhad gyda'u hysgol'*. Yn yr Astudiaeth o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol yn 2014 roedd dros chwarter (27%) o blant blynyddoedd 7, 9 ac 11 yn dweud eu bod yn hoff iawn o fynd i'r ysgol; ffigur tebyg i'r hyn a gafwyd yn 1986 (25%) ac 1990 (26%).

## Pennod 4: Iechyd

Mae yna arwyddion calonogol o ran iechyd plant wyth oed a hŷn. Mae iechyd deintyddol a pha mor aml maent yn brwsio eu dannedd wedi gwella. Cafwyd cynnydd yng nghyfradd y brechiadau ar gyfer MMR a'r pigiad atgyfnerthu tri-mewn-un i bobl ifanc yn eu harddegau. Mae gwerthusiadau'r plant eu hunain o'u hiechyd wedi gwella'n gyson dros y degawd diwethaf hefyd gyda dim ond 19% o'r plant ym mlynyddoedd ysgol 7 i 11 yn datgan bod eu hiechyd yn 'weddol' neu'n 'wael' yn 2013/14 o gymharu â 26% yn 2001/2. Mae cyfradd beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau wedi gostwng yn sylweddol hefyd rhwng 2008 (64 fesul 100,000) a 2013 (43 fesul 100,000). Gwelwyd dwy duedd negyddol sylweddol yn yr ystadegau iechyd: mae cyfraddau derbyniadau ysbyty am hunan-niweidio i ferched 10-17 oed wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a chafwyd cynnydd hirdymor yng nghyfradd chlamydia, ond efallai bod hyn i'w briodoli i fwy o ymwybyddiaeth a diagnosis yn hytrach na mwy o achosion.

O ran ymddygiad iechyd, cafwyd cynnydd o 16% yn nifer y bobl ifanc o dan 20 oed sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau triniaeth am ddefnydd canabis dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, pan roedd data am dueddiadau ar gael, mae dangosyddion eraill yn sefydlog neu'n dangos arwyddion o welliant. Mae cyfraddau defnydd alcohol a thybaco ymysg plant wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â nifer y plant sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau, lle gwelwyd gostyngiad o 63% rhwng 2009/10 a 2013/14.

## Pennod 5: Cael cyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant

Ychydig o wybodaeth benodol am Gymru sydd ym maes chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant plant. Fodd bynnag, mae tystiolaeth i awgrymu bod yr amser mae plant yn ei dreulio ar gyfrifiaduron wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf; er bod yr amser maent yn ei dreulio'n gwylio'r teledu wedi aros yn gymharol sefydlog.

Ar y llaw arall, nid yw'r ystadegau diweddaraf gan Arolwg Iechyd Cymru a HBSC yn dangos unrhyw newid sylweddol yn lefelau gweithgarwch

corfforol plant yn y blynyddoedd diwethaf. Mae lefelau teithio llesol i'r ysgol wedi parhau'n gymharol sefydlog dros yr wyth mlynedd diwethaf. Mae canlyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Arolwg Chwaraeon Cymru 2015 yn dangos bod nifer y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol deirgwaith neu fwy yr wythnos wedi codi o 40% yn 2013 i 48% yn 2015. Mae data mwy diweddar yn awgrymu bod cyfranogiad pobl ifanc (15 i 24 oed) mewn chwaraeon wedi cynyddu hefyd. Yr unig duedd am i lawr a welir mewn chwaraeon yw'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd nofio am ddim a gweithgareddau nofio eraill wedi'u trefnu i blant.

Mae lefelau cyfranogiad plant (mynychu a chymryd rhan) mewn digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol yn ymddangos yn gymharol sefydlog, ac mae mwy wedi mynychu gweithgareddau'r Eisteddfod Genedlaethol dros y tair blynedd diwethaf.

### Pennod 6: Cyfranogi mewn penderfyniadau

Mae yna brinder data amlwg am Gymru'n benodol pan ddaw hi'n fater o farn plant a phobl ifanc am hunaniaeth a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Mae tystiolaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru'n dangos bod llai o bobl ifanc 16 i 24 oed yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal yn 2013/14 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd fod llai o bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn wedi cael profiad personol o wahaniaethu. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau'n gymharol fychan ac mae angen data i ddangos tuedd hirdymor er mwyn gallu gwneud unrhyw gasgliadau cadarn. Ceir tystiolaeth o welliant mawr yng nghyfran y plant 11 i 15 oed yng Nghymru sy'n dweud eu bod yn gallu siarad â'u tad yn hawdd (cynnydd o 60% yn 1994 i 75% yn 2014).

### Pennod 7: Cartref a chymuned ddiogel

Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar rai o'r pynciau sy'n ymwneud â diogelwch plant gartref ac yn y gymuned yn amrywio. Cafwyd gostyngiad yn nifer y teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro ac yng nghanran y teuluoedd sy'n treulio dros flwyddyn mewn llety o'r fath.

Cafwyd cynnydd ym mhrofiadau plant o fwlio mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn 2014/14 o gymharu â'r ystadegau sylfaenol yn 2002. Mae nifer y dynladdiadau gan blant yn isel iawn yng Nghymru bob blwyddyn (llai na 10 dynladdiad fel arfer). Mae cyfradd y troseddau rhyw a gofnodwyd yn erbyn plant o dan 16 yng Nghymru wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf; efallai am fod mwy yn barod i roi gwybod am achosion o gam-drin a bod arferion cofnodi wedi gwella  (Jutte et al. 2015).

Roedd nifer y bobl ifanc 16 i 24 oed a gafodd eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd 8% yn uwch yn 2014 nag yn 2013, ond mae'r duedd hirdymor yn dangos gostyngiad yn y nifer hwn dros y degawd diwethaf.

### Pennawd 8: Dim anfantais yn sgil tlodi

Mae tueddiadau diweddar yn cyflwyno darlun cymysg. Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'n dal yn uwch na'r cyfnod rhwng 2002 a 2005. Mewn cyferbyniad, mae canran y plant sy'n byw mewn teuluoedd gydag incwm

isel absoliwt wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwelir tueddiadau mwy cadarnhaol mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ieuenctid. Mae cyfradd diweithdra pobl ifanc wedi gostwng yn ddiweddar o uchafbwynt o 24% yn 2012 i lai na 19% yn 2015, er bod y gyfradd hon dal yn uwch na'r hyn oedd yn 2008 (o dan 15%). Mae cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant wedi gostwng hefyd, ond ychydig o newid a fu yn y gyfradd ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed. Ar ôl cyfnod o ddirywio, dychwelodd cyflogau cyfartalog pobl ifanc 16 i 24 oed mewn cyflogaeth lawn amser i'w gwerth yn 2008 yn 2014.

---

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Dr Semele Mylona
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 11 Rhagfyr 2015
ISBN 978-1-4734-5304-3
© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodi fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

---